



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

<b><u>Aelodau:</u></b>	Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (CHTh) Y Prif Gwnstabl Mark Collins (MC) Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) Mrs Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (BP) Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)
<b><u>Hefyd yn Bresennol:</u></b>	Y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Richard Lewis (DBG/DD) Chris Neve, Swyddog Staff (CN) Stuart Davies, Swyddog Staff (SD) Miss Mair Harries, Swyddog Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH) Emma Northcote, Adran Gyfathrebu'r Heddlu (EN)
<b><u>Arsylwyr:</u></b>	Aelodau o Banel Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys Myfyrwyr o Ysgol Dyffryn Aman
<b><u>Ymddiheuriadau:</u></b>	Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Vicki Evans (PGC/DD)

CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 06/11/2018		
Rhif y Cam Gweithredu	Crynodeb o'r Cam Gweithredu	I'w symud yn ei flaen gan
<b>PAB 110</b>	<b>Emma Northcote i roi cyngor a chefnogaeth mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd BAH ar-lein.</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 111</b>	<b>SCHTh i wahodd cymunedau busnes lleol i gyfarfodydd BAH yn y dyfodol yn dilyn awgrym gan y PG.</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 112</b>	<b>CHTh i gael mynediad at daenlen argymhellion AHGTAEM.</b>	<b>Cwblhawyd</b>

## 1 Croeso ac ymddiheuriadau

## 2 Cofnodion y Bwrdd Atebolrwydd a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd a Materion yn Codi

Ar gychwyn y cyfarfod, cafwyd sesiwn holi ac ateb 45 munud o hyd gyda disgyblion chweched dosbarth Ysgol Dyffryn Aman. Cyflwynodd aelodau'r Bwrdd eu hunain, gan ddisgrifio eu rôl o fewn SCHTh neu HDP, a chafwyd trafodaeth rhwng y CHTh, Prif Swyddogion a myfyrwyr mewn perthynas â barn pobl ifanc am drosedd yn eu hardal a'u pryderon personol, a oedd yn cynnwys y defnydd o amrediad eang o gyffuriau yn

Rhydaman, problemau mewn perthynas â gweithgarwch llinellau cyffuriau, a thrais gyda'r hwyr mewn trefi mawr yn nwyrain Sir Gaerfyrddin.

Cytunodd y Bwrdd fod cofnodion cyfarfod blaenorol Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu (BAH) yn gofnod gwir a chywir o'r drafodaeth.

*PAB 110 – EN i roi cyngor a chymorth mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd BAH ar-lein.*

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cymhelliad dros ddarlledu cyfarfodydd BAH ar-lein. Nodwyd na fyddai aelodau o'r cyhoedd sy'n gwyllo'r darllediad ar-lein yn medru cymryd rhan weithredol yn y drafodaeth na holi cwestiynau i'r Bwrdd yn ystod y cyfarfod. Cyflwynodd EN rinweddau cynnal sesiwn fyw 30 munud o hyd ar Facebook. Dywedodd y byddai hynny'n rhoi cyfle i'r cyhoedd weld y cyfarfod ac anfon cwestiynau i'r Bwrdd. Daeth y Bwrdd i'r casgliad na fyddai darllediad ar-lein mor fuddiol â gwahodd y gymuned ehangach, gan gynnwys busnesau a sefydliadau eraill, i gyfarfod BAH, nac mor arloesol â darlledu'n fyw ar Facebook. Hefyd, nodwyd fod meysydd eraill CHTh yn ymddangos fel pe baent yn symud i ffwrdd wrth ddarlledu cyfarfodydd ar-lein oherwydd y teimlad fod hyn yn rhwystro craffu effeithiol.

### **Cam Gweithredu: MH i wahodd aelodau o'r gymuned fusnes i gyfarfod nesaf BAH yn Llandrindod.**

*PAB 112 – Y CHTh i gael mynediad at daenlen argymhellion AHGTAEM.*

Cafwyd trafodaeth ynghylch cynrychiolaeth Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (SCHTh) yng Ngrŵp Llywodraethu Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (AHGTAEM) Heddlu Dyfed-Powys (HDP), gyda'r PS yn dweud y byddai SCHTh yn bresennol yng Ngrŵp Llywodraethu Datganiad Rheoli'r Heddlu (DRhH) HDP yn y dyfodol.

### **3 – Adroddiad Perfformiad yr Heddlu – Chwarter 3**

Dywedodd y CHTh ei fod yn teimlo bod y data a gyflwynwyd yn Adroddiad Perfformiad yr Heddlu ym mis Chwefror 2019 yn debyg iawn i'r data mewn fersiynau blaenorol, a dywedodd y byddai asesu'r ffordd y mae HDP yn monitro patrymau data trosedd tebyg yn ffurfio sail ei waith craffu ar gyfer trafodaeth BAH mis Chwefror.

Cychwynnodd y drafodaeth drwy graffu ar farn y cyhoedd am HDP. Canmolodd y CHTh yr Heddlu am gyfraddau bodlonrwydd y cyhoedd o ran y profiad cyfan, a oedd yn gyson uwch na 90% drwy gydol 2018, fodd bynnag, cwestiynodd ymateb yr

Heddlu i ostyngiad ym modlonrwydd defnyddwyr mewn sawl maes busnes ym mis Rhagfyr 2018. Dywedodd y DBG/DD y gallai materion sy'n ymwneud â'r amser mae'n cymryd i ateb galwadau Cymraeg esbonio'r gostyngiad mewn lefelau bodlonrwydd yn ystod cyfnodau prysur megis y cyfnod yn arwain at y Nadolig, a dywedodd fod lefelau bodlonrwydd yn gostwng ar gyfer y rhan fwyaf o heddluoedd yn ystod y Nadolig oherwydd natur brysur y mis. Hefyd, dywedodd y DBG/DD fod rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am gynnydd eu hachos yn bwysig i HDP, ac y byddai Uned Reoli Sylfaenol (URS) Sir Gaerfyrddin yn treialu ffordd newydd o ddiweddarau pobl yn ystod y gwanwyn, gan ddefnyddio negeseuon atgoffa awtomatig i sicrhau fod aelodau o'r cyhoedd yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag agwedd gymhleth rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i wahanol ddiodefwyr, a gofynion amrywiol pob dioddefydd, sy'n gwneud mesur gallu a llwyddiant HDP o ran diweddarau pobl yn rheolaidd yn anodd iawn.

Cyfeiriodd y CHTH at achos crwner sy'n parhau, ac estynnodd ei gydymdeimladau dwysaf â theulu'r unigolyn ymadawedig. Dywedodd y PG fod argymhellion amrywiol wedi'u gwneud adeg y digwyddiad yn 2015, a arweiniodd at gynllun hyfforddi diwygiedig. Sicrhaodd y PG y Bwrdd fod lles pob swyddog a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad hwnnw wedi'i wirio.

Soniodd y DBG/DD yn fyr am ei bryderon ynglŷn â'r rheoliadau dros dro sydd ar fin cael eu cyflwyno, a fydd yn disodli datrysiadau lleol ar gyfer cwynion, fodd bynnag, dywedodd y byddai hyfforddiant staff parhaus yn Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu'n sicrhau y bydd adrannau sy'n ymdrin â chwynion yn addasu'n gyflym i'r newidiadau er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o aflonyddu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Diweddarodd y PG y Bwrdd ynghylch archwiliad gwrthderfysgaeth a gynhaliwyd ychydig wythnosau cyn cyfarfod BAH a arweiniodd at HDP yn cael ei farnu fel un o'r pedwar heddlu gorau yng Nghymru a Lloegr ar gyfer ymateb i wrthderfysgaeth.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at y lefelau o gyfanswm y troseddau sydd wedi'u cofnodi, sef 2407 ar gyfer mis Rhagfyr 2018. Dywedodd y PG fod HDP wedi ymateb i gynnydd yn nifer y troseddau gwledig drwy lansio cynllun troseddau gwledig a thrwy ffurfio tîm troseddau gwledig. Cafwyd sgwrs fer ynghylch arfer cofnodi troseddau HDP a nodwyd fod HDP yn cael ei ystyried fel heddlu sy'n anghydfurfio ar hyn o bryd o ran cywirdeb data trosedd, gyda sgôr o 88% yn erbyn y safon ofynnol o 90%. Dywedodd y DBG/DD fod HDP yn sgorio'n dda yn gyson o ran cywirdeb data trosedd ar gyfer mathau o droseddau lefel uwch, fodd bynnag, maent yn sgorio'n is ar gyfer digwyddiadau domestig a throseddau lefel is. Rheswm posibl ar gyfer sgorau is yw'r ffaith bod troseddau'n cael eu colli rhwng dod trwodd i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu a chael eu pennu i swyddog. Dywedodd y DBG/DD y byddai Andrew Edwards, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, sydd wedi'i secondio i weithio ar y Prosiect Digwyddiadau

Domestig, yn ymdrin â'r sefyllfa ac yn craffu ar gywirdeb data trosedd o fewn HDP er mwyn mynd i'r afael â bregusrwydd. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â sefydlu desg ddigwyddiadau er mwyn lleihau'r galw ar Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu.

Holodd y CHTH sut oedd HDP yn monitro elfen ariannol ei weithgarwch gweithredol a pha un ai a fyddai modd cynnwys data ariannol o fewn yr adroddiad perfformiad er mwyn darparu cyd-destun. Dywedodd y DBG/DD fod y PGC/DD wedi cyflawni gwaith da o fewn y maes pennu tasgau cudd i gwestiynu pa un ai a yw HDP yn medru fforddio cyflawni gweithredoedd penodol yn barhaus. Dywedodd y PG fod arian a bennir yn ystod digwyddiad mawr yn cael ei fonitro'n agosach yn awr nag ydoedd mewn blynyddoedd blaenorol.

### **Cam Gweithredu: Darparu rhagolygon blwyddyn ar ôl blwyddyn o wariant ar bennu tasgau cudd fel rhan o adroddiadau perfformiad BAH yn y dyfodol.**

Canmolodd y CHTH HDP ar y gostyngiad sylweddol yn lefel y byrgleriaethau (gostyngiad o 11%) rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2018. Hefyd, canmolodd y CHTH yr Heddlu ar ei ragweithgarwch uwch o ran plismona'r ffyrdd. Holodd y CHTH am y cynnydd canfyddedig o ran meddu ar ganabis yn Sir Benfro, a sefydlodd fod swyddogion yn fwy rhagweithiol o ran chwilio am gyffuriau. Dywedodd y CHTH y dylai Dosbarthiad 92A y Swyddfa Gartref ymddangos fel rhan o'r adroddiad perfformiad er mwyn rhoi darlun o berfformiad HDP mewn troseddau sy'n ymwneud â meddu ar gyffuriau gyda'r bwriad o werthu.

### **Cam Gweithredu: Dosbarthiad 92A y Swyddfa Gartref i ymddangos fel rhan o'r adroddiad perfformiad.**

Nododd y CHTH newid sylfaenol ar gyfer trais yn erbyn y person, a gododd o 23% yn 2018. Cafwyd trafodaeth ynghylch y ffordd y mae troseddau sy'n cael eu categorio o dan 'trais yn erbyn y person' yn cael eu cyflwyno i'r BAH, gyda'r PG yn dweud y byddai crynodeb o'r ffigurau'n galluogi'r Bwrdd i asesu pa un ai a yw'r ffigurau uwch yn ymwneud ag economi nos uwch neu gynnydd yn nifer yr unigolion sy'n dod ymlaen ac yn adrodd am stelcio ac aflonyddu. Dywedodd y DBG/DD fod y blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf wedi'u sefydlu gan Fwrdd Perfformiad a chanlyniadau'r Heddlu, a fydd yn caniatáu i HDP fonitro mathau gwahanol o droseddau i fwydo yn ôl i mewn i Adroddiad Perfformiad yr Heddlu.

Nododd y CHTH y bu cynnydd o 13% yn nifer y troseddau rhyw yn 2018. Dywedodd y PG fod HDP dal yn derbyn adroddiadau am achosion hanesyddol o droseddau rhyw. Dywedodd y DBG/DD y bu'n aneglur faint o waith oedd yn cael ei gynnal mewn achosion troseddau rhyw gan swyddogion lifrog yn y gorffennol oherwydd nid oedd cysylltiad cychwynnol â swyddogion lifrog cyn i uwch swyddogion ymchwilio ddod yn gysylltiedig â'r achos wedi'i ystyried na'i gipio'n gywir. Byddai hyn yn cael ei drin fel

rhan o'r gwaith Galw. Dywedodd y DBG/DD hefyd fod HDP wrthi'n rhoi pwysau ar bartneriaid i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cynorthwyo plant sy'n dioddef troseddau rhyw, gyda'r CHTh yn dweud ei fod ef hefyd wedi bod yn lobïo dros wasanaethau cymorth meddygol er mwyn cyflwyno darpariaeth bellach i blant ledled Cymru.

Adolygodd y Bwrdd siart yn cynnwys digwyddiadau domestig misol, a ddangosodd ffigur o 610 digwyddiad ym mis Rhagfyr 2018, sy'n uwch nag y mae wedi bod mewn dwy flynedd. Dywedodd y DBG/DD y bydd dealltwriaeth o'r rheswm dros hyn yn ffurfio rhan o'r gwaith y bydd Andrew Edwards yn ei gynnal o gwmpas cywirdeb data trosedd, fodd bynnag, cydnabu bod digwyddiadau domestig wedi cynyddu yn genedlaethol.

### **Cam Gweithredu: Rhoi gwybodaeth am waith Andrew Edwards i'r CHTh erbyn cyfarfod nesaf BAH ar 7 Mai.**

Cafwyd trafodaeth fer ynghylch oedi parhaus HDP wrth gyflwyno'r ffurflenni Cyfiawnder Adferol 1 i Dimau Troseddau Ieuencid o fewn yr amser y cytunwyd arno, sef 24 awr.

### **Cam Gweithredu: Y PG i adolygu'r oedi o gwmpas cyflwyno ffurflenni Cyfiawnder Adferol 1 i Dimau Troseddau Ieuencid.**

Canmolodd y CHTh yr Heddlu am berfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn perthynas â sicrhau euogfarnau Llys Ynadon ar gyfer trais rhywiol. Ym mis Rhagfyr 2018, ffigur HDP oedd 91.3% o'i gymharu ag 89.1% ym mis Tachwedd 2018.

### **Cam Gweithredu: Cyflwyno rhagolygon blwyddyn ar ôl blwyddyn o gyfraddau euogfarnau Llys Ynadon yng nghyfarfod nesaf BAH ar 7 Mai.**

Symudodd y drafodaeth ymlaen at droseddau digidol, gyda'r CHTh yn nodi fod nifer y troseddau seiber yn cynyddu o fis i fis a bod y cynnydd o ran galw ar yr Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu wedi'i gydnabod drwy weithredu cynllun peilot yn Hwlfordd. Dywedodd y DBG/DD fod gwasanaeth brysbennu Ymchwilydd Cyfryngau Digidol yn Sir Benfro sydd wedi arwain at ostyngiad o 30% yn nifer y cyfeiriadau o'r sir i Bencadlys yr Heddlu. Holodd y CHTh sut oedd arbedion effeithlonrwydd yn cael eu hymgorffori yn y prosiect. Dywedodd y DBG/DD fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan staff presennol yr Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu ar hyn o bryd, ac y bydd gwerthusiad ariannol yn cael ei gynnal cyn i'r gwasanaeth gael ei gyflwyno ledled HDP.

Cafwyd trafodaeth fer ynghylch nifer cyfredol y galwadau 999, a chyfradd ymateb y galwadau hynny, fodd bynnag, gofynnodd y CHTh am i'r un data gael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf BAH ar gyfer galwadau 101.

## **Cam Gweithredu: Cyflwyno nifer a chyfradd ateb galwadau 101 yng nghyfarfod BAH ym mis Mai 2019.**

Yng ngoleuni ymosodiad diweddar ar swyddog ar ben ei hun yng Ngheredigion, holodd y CHTh pa un ai a oes gan HDP bolisi criw sengl i amddiffyn swyddogion rhag trais pan maen nhw'n gweithio ar ben eu hun. Dywedodd y PG fod gweithio ar ben eich hun ar achosion lefel is yn arfer sefydledig, ond bod asesiad risg dynamig yn cael ei gynnal cyn pob galwad er mwyn amddiffyn swyddogion sydd ar ben eu hunain.

### **4 – Perfformiad Ariannol – Chwarter 1**

Rhoddodd y CC ddiweddariad cyllid o ddarlun cyfredol HDP wrth fynd mewn i chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Cyflwynodd y CC ddarlun ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn hyd at ddiwedd Ionawr 2019, sy'n dangos bod arian HDP a SCHTh gyda'i gilydd £144,000 dros y gyllideb. Mae hyn yn cynnwys gorwariant o £349,000 gan yr Heddlu, a thanwariant o £205,000 gan SCHTh. Dywedodd y CC fod y rhan fwyaf o orwariant yr heddlu'n ymwneud â chyflog a goramser swyddogion, gyda gorwariant sylweddol yn digwydd yn ystod achosion proffil uwch/troseddau difrifol, er enghraifft, achos o gynnu tân yn fwriadol yn Aberystwyth. Nododd y CC fod gorwariant pellach ar achosion o'r fath wedi'i liniaru drwy gydol y flwyddyn gan y Grŵp Aur Cyllid, sef tîm o swyddogion a staff a ffurfiwyd er mwyn craffu ar gyllidebau'r Heddlu a sicrhau bod gorwario'n llai tebygol o ddigwydd.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r Cyd-uned Arfau Saethu a phrosiectau cydweithio lefel uwch eraill tebyg, gyda'r CHTh yn mynegi pryder ynghylch strwythurau llywodraethu gwaith ar y cyd mewn perthynas â monitro gwariant. Dywedodd y DBG/DD fod HDP wedi mynd at dîm Cyd-uned Arfau Saethu Cymru Gyfan i ofyn am i'r Telerau ac Amodau ar gyfer y Cyd-uned Arfau Saethu gael eu diwygio er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd strwythurau llywodraethu da o gwmpas y prosiect Cyd-uned Arfau Saethu.

## **Cam Gweithredu: Y CHTh a'r PG i geisio eglurhad ynghylch strwythurau llywodraethu a chyllidebau cydweithio yng nghyfarfod nesaf Grŵp Plismona Cymru Gyfan.**

Dywedodd y CHTh fod gorwariant HDP yn rhwystredig, yn enwedig gan fod SCHTh wedi bod yn gwneud toriadau er mwyn cynnal sefyllfa cyfrifon grŵp HDP. Dywedodd y PG y bydd angen cau'r storfa ddillad am 8 wythnos cyn y flwyddyn ariannol newydd er mwyn uchafu arbedion ar gyfer 2018/19, a byddai recriwtio staff newydd yn cael ei atal. Holodd y CHTh pa un ai a yw'r gweithredoedd hyn yn ymestyn y mater drwy greu problem ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, fodd bynnag, roedd y CC yn hyderus na fyddai hynny'n digwydd.

Cafwyd trafodaeth fer ynghylch llythyr gan y Swyddfa Gartref yn gofyn i bob heddlu gyfrannu at weithgarwch caffael cenedlaethol er mwyn cefnogi arbedion effeithlonrwydd parhaus. Cytunodd y Bwrdd y byddai angen craffu ar gyllideb HDP hefyd wrth i ni fynd mewn i'r flwyddyn ariannol newydd.

## **5 – Diweddariad ynghylch Cynllun Trosglwyddo'r Cynllun Heddlu a Throsedd**

Derbyniodd y CHTh yr adroddiadau o'r pum maes busnes, a oedd yn cynnwys Bodlonrwydd Dioddefwyr, Hyder Cyhoeddus, Iechyd a Lles Sefydliadol, AHGTAEM a Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Cafwyd trafodaeth wrth i'r CHTh holi pa un ai a fyddai angen yr adroddiadau yng nghyfarfodydd BAH yn y dyfodol gan fod y pum maes busnes yn cael eu trafod a'u harchwilio fel rhan o'r drafodaeth ynghylch Adroddiad Perfformiad yr Heddlu. Penderfynwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei darfod ymhellach yng nghyfarfodydd Tîm Gweithredol SCHTh yn y dyfodol.

### **Cam Gweithredu: Tîm Gweithredol SCHTh i drafod strwythur agenda BAH cyn cyfarfod nesaf BAH ym mis Mai 2019.**

Cafwyd trafodaeth fer ynghylch bygythiad a restrwyd fel rhan o'r adroddiad a ddarparwyd gan y Tîm Iechyd a Lles Sefydliadol, sef y Polisi Cwynion a Thegwch yn y Gwaith. Dywedodd y DBG/DD fod adborth mewn perthynas â chanfyddiad o degwch o fewn HDP dal yn negyddol yn dilyn archwiliad AHGTAEM. Dywedodd y DBG/DD wrth y Bwrdd fod y Broses Achwyn wedi'i hyrwyddo drwy gyflwyniadau yn y Grŵp Cyfeiriad Proffesiynol, Cyrsiâu ar gyfer Arolygwyr a Rhingylliaid a chyfarfodydd Uwch Reolwyr, a'i rhannu ymysg Rhwydweithiau Cymorth, y Ffederasiwn Heddlu ac Unsain. Nodwydd y byddai HDP yn dechrau adrodd am ystadegau cwynion wrth Fwrdd Pobl HDP er mwyn uchafu proffil y broses a monitro cydymffurfiaeth o fewn amserlenni polisi.

<b>CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 12/02/2019</b>		
<b>Rhif y Cam Gweithredu</b>	<b>Crynodeb o'r Cam Gweithredu</b>	<b>I'w symud yn ei flaen gan</b>
<b>PAB 113</b>	<b>MH i wahodd aelodau o'r gymuned fusnes i gyfarfod nesaf BAH yn Llandrindod.</b>	<b>MH</b>
<b>PAB 114</b>	<b>Darparu rhagolygon blwyddyn ar ôl blwyddyn o wariant ar bennu tasgau cudd fel rhan o adroddiadau perfformiad BAH yn y dyfodol.</b>	<b>CN</b>



<b>PAB 115</b>	<b>Dosbarthiad 92A y Swyddfa Gartref i ymddangos fel rhan o'r adroddiad perfformiad.</b>	<b>CN</b>
<b>PAB 116</b>	<b>Rhoi gwybodaeth am waith Andrew Edwards i'r CHTh erbyn cyfarfod nesaf BAH ar 7 Mai.</b>	<b>AE/CN</b>
<b>PAB 117</b>	<b>Y PG i adolygu'r oedi o gwmpas cyflwyno ffurflenni Cyfiawnder Adferol 1 i Dimau Troseddau Ieuencid.</b>	<b>PG</b>
<b>PAB 118</b>	<b>Cyflwyno rhagolygon blwyddyn ar ôl blwyddyn o gyfraddau euogfarnau Llys Ynadon yng nghyfarfod nesaf BAH ar 7 Mai.</b>	<b>CN</b>
<b>PAB 119</b>	<b>Cyflwyno nifer a chyfradd ateb galwadau 101 yng nghyfarfod BAH ym mis Mai 2019.</b>	<b>CN</b>
<b>PAB 120</b>	<b>Y CHTh a'r PG i geisio eglurhad ynghylch strwythurau llywodraethu a chyllidebau cydweithio yng nghyfarfod nesaf Grŵp Plismona Cymru Gyfan.</b>	<b>CHTh/PG</b>
<b>PAB 121</b>	<b>Tîm Gweithredol SCHTh i drafod strwythur agenda BAH cyn cyfarfod nesaf BAH ym mis Mai 2019.</b>	<b>PS</b>

### **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

10:00 – 13:00 7 Mai, Siambrau Cyngor Llandrindod, Neuadd y Dref.